

I'r Perchennog/Meddiannydd/Perchennog
yr eiddo.

**Marcus Lloyd B.Eng. MBA.C.ENG.
MICE, MCMI, MCIHT
Pennaeth Isadeiledd**

**Marcus Lloyd B.Eng.
MBA.C.ENG.
MICE, MCMI, MCIHT
Head of Infrastructure**

Cysylltwch â/Contact:

Mrs Liz Gibby

Ein Cyf/Our Ref:

AT/INMC47/LG

Eich Cyf/Your Ref:

Ffôn/Telephone:

01443 866595

E-bost/E-mail:

gibbye@caerffili.gov.uk

Dyddiad/Date:

01/11/2019

I bwy bynnag a fynno wybod,

Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r awdurdod i wella cyfleusterau croesi a mynediad i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gynradd Pengam, Ysgol Gymraeg Trelyn ac Ysgol Gynradd Fleur-de-Lis. Bydd y cynnig hefyd yn gwella cyfleoedd i gerdded i siopau, gwasanaethau a chyfleusterau lleol ar gyfer y gymuned.

Ymgynghorodd y Cyngor â phreswylwyr y Fwrdeistref Sirol ynghylch eu barn a'u cynigion o ran gwella isadeiledd cerdded a beicio ar gyfer teithiau pob dydd. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn sail i greu Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol o ran llwybrau i'w datblygu er mwyn eu gwneud yn fwy addas ar gyfer cerdded, beicio a theithio ar gefn sgwter. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar <https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Transport-and-parking/Active-Travel?lang=cy-gb>.

Mae'r gwelliant yr ydym yn ceisio'ch barn arno wedi'i nodi fel INMC47 ar y Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol. Nod y cynllun arfaethedig yw darparu cyfleusterau croesi i wella diogelwch a chysylltedd er mwyn galluogi mwy o bobl i gerdded wrth wneud teithiau bob dydd. Mae'r Cyngor yn eich gwahodd i adolygu'r cynigion amgaeedig, llenwi'r holiadur a dychwelyd y wybodaeth yn yr amlen ragdaledig a ddarperir. Mae'r holiadur hefyd ar gael i'w llenwi ar-lein yn <https://www.snapsurveys.com/wh/s.asp?k=157124218487>.

Ariennir y gwaith arfaethedig gan Lywodraeth Cymru ac mae'r gwaith yn ein galluogi i ddarparu'r gwelliannau canlynol:

- Cyfleusterau croesi yn y gyffordd bresennol ag arwyddion (A4049 / B4254).
- Cyfleuster croesi ag arwyddion sy'n cysylltu â llwybrau gwell sy'n cynnwys gwelliannau/addasiadau i rwystr sy'n bodoli eisoes.
- Palmant botymog ac addasiadau i lwybrau a rheiliau llaw i wella mynediad.

- Porth gwell ar ddechrau'r rhan Terfyn Cyflymder 30mya ac arwyddion rhybuddio a marciau ffordd gerbydau ychwanegol.

Mae eich sylwadau, eich barn a'ch awgrymiadau yn bwysig i ni a byddant yn helpu'r Cyngor i ddatblygu manylion terfynol y cynllun. Bydd pob sylw sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael ei ystyried. Llenwch a dychwelwch yr holiadur cyn gynted â phosibl ac erbyn 21 Tachwedd 2019. Os na dderbynnir holiadur wedi'i llenwi o'ch cyfeiriad erbyn 25 Tachwedd 2019, bydd y Cyngor yn tybio nad ydych am wneud unrhyw sylwadau. Os ydych wedi llenwi a dychwelyd yr holiadur ac wedi darparu eich manylion cyswllt, ni fyddwch yn derbyn ymateb unigol ond fe'ch hysbysir o ganlyniad yr ymgynghoriad.

Gobeithiaf fod y wybodaeth uchod o gymorth i chi.

Yn gywir

Liz Gibby, Uwch Beiriannydd Cynorthwyol

Ar gyfer ac ar ran
Pennaeth Isadeiledd

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio'r data a ddarparwyd gennych yn ein dadansoddiad ac i lywio datblygu ein polisiau/cynlluniau a, lle bo'n briodol, i lywio ein penderfyniadau a'n newidiadau. Ni fydd eich sylwadau yn derbyn atebion unigol yn awtomatig ond fe'u hystyrir wrth adolygu a gwerthuso'r gefnogaeth i'r polisi/cynllun. Byddwn yn hysbysu'r rhai sydd wedi cymryd rhan/ymateb am ganlyniad ein hymgyngghoriad os mae'r ymatebydd wedi darparu cyfeiriad cyswllt.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut byddwn yn prosesu eich gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Project-Development-Consultation-cy.aspx